CYNGOR CYMUNED TREWALCHMAI COMMUNITY COUNCIL
COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 09/09/2019 / MINUTES FOR MEETING HELD ON 09/09/2019

PRESENNOL: Cadeirydd Mrs Edna Jones,Is-gadeirydd Mrs Sharon Jones, Mrs C Parry, Ms M E Evans, Mrs A E Williams a Mr R G Parry.	**PRESENT:** Chairman Mrs Edna Jones,Vice Chairman Mrs Sharon Jones, Mrs C Parry, Ms M E Evans, Mrs A E Williams and Mr R G Parry.
1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU.	**1. WELCOME AND APOLOGIES.**
Croesawodd y Cadeirydd pawb i'r cyfarfod. Oherwydd gwaeledd, derbyniwyd ymddiheuriad am ei absenoldeb oddi wrth Mr G Williams.	The Chairman welcomed all to the meeting. Due to illness, apologies for his absence was received from Mr G Williams.
2. DATGANIADAU DIDDORDEB.	**2. DECLARATIONS OF INTEREST.**
Dim.	None.
3. CADARNHAU COFNODION.	**3. RATIFY MINUTES.**
Cadarnhawyd a derbyniwyd yn gywir cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 08/07/2019. Mrs C Parry yn cynnig. Ms M E Evans yn eilio.	The minutes of the meeting held on 08/07/2019 were ratified and accepted as a true record of the meeting. Proposed by Mrs C Parry. Seconded by Ms M E Evans.
4. MATERION YN CODI:	**4. MATTERS ARISING:**
(a) Arwyddbost at yr Eglwys. Heb eu gosod hyd yma. Dywedodd y Cynghorydd Bob Parry y gallai gymryd rhai wythnosau cyn iddynt gael eu gosod.	**(a) Signpost for the Church.** They have not been erected yet. Councillor Bob Parry advised that it could take some weeks before they are erected.
(**b) Japanese Knotweed ar lwybr cyhoeddus Ty'n Corniog.** Gan nad oedd unrhyw arwydd bod chwyn laddwr wedi'i chwistrellu ar hyd y llwybr, gofynnwyd i'r Cynghorydd Bob Parry ofyn i'r Cyngor Sir fynd i'r afael a'r mater cyn gynted â phosib.	**(b) Japanese Knotweed on Ty'n Corniog public footpath.** As there was no sign that weed killer had been sprayed along the footpath, Councillor Bob Parry was requested to ask the County Council to deal this matter as soon as possible.
(c) Llwybr cyhoeddus Pendref. Y gwaith ar y llwybr wedi'i gwblhau.	**(c) Pendref public footpath.** Work on the footpath had been completed.
(d) Cloc y Pentref. Y gwaith ar y cloc wedi'i gwblhau gan Mri J B Joyce.	**(d) Village Clock.** Messrs J B Joyce had completed the work on the clock.
(e) Hysbysebu am Glerc i'r Cyngor Cymuned. Hysbysebion wedi eu gosod yn unol â'r hyn benderfynwyd yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor.	**(e) Advertising for a Clerk for the Community Council.** Notices placed in accordance with decision made at the last meeting of the Council.
(**f) Fforwm Cyswllt Cynghorau Tref a Chymuned 18/7/2019.** Cafwyd adroddiad gan y Cadeirydd ar gynnwys y cyfarfod.	**(f) Town and Community Council Liaison Forum 18/7/2019.** Report on the content of the meeting given by the Chairman.
5. Gohebiaeth:	**5. Correspondence:**
(i) Un Llais Cymru:	**(i) One Voice Wales:**
(a) Model Rheoliadau Ariannol	**(a) Revised Model Financial**

Diwygiedig 2019. Trafodwyd a gofynnwyd i'r Clerc wneud y newidiadau angenrheidiol.	**Regulations 2019.** Discussed and the Clerk requested to make the necessary changes.
(b) Agenda Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol Un Llais Cymru ynghyd ag Agenda'r Gynhadledd Flynyddol, i'w cynnal dydd Sadwrn 5/10/2019 yn Pavilion Bont, Stryd y Bont, Pontrhydfendigaid. Derbyn er gwybodaeth.	**(b) Agenda One Voice Wales AGM together with Agenda for the Annual Conference, both to be held on 5/10/2019 at Pavilion Bont, Stryd y Bont, Pontrhydfendigaid.** For information.
(ii) Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru Arolwg o'r Trefniadau Etholiadol ar gyfer Sir Ynys Môn. Trafodwyd a derbyniwyd er gwybodaeth.	**(ii) Local Democracy and Boundary Commission for Wales.** Review of the Electoral Arrangements for the County of Isle of Anglesey. Discussed and accepted for information.
(iii) "Planning Aid Wales". Hyfforddiant Ymateb i Geisiadau Cynllunio a Gwneud y Mwyaf o'ch Dylanwad, i'w gynnal 11/9/2019 yng Nghyngor Tref Abergele 6.30pm i 9pm. Derbyn er gwybodaeth.	**(iii) Planning Aid Wales.** Training on Responding to Planning Applications and Maximising your Community Influence, to be held on 11/9/2019 at Abergele Town Council 6.30pm to 9pm. For information.
(iv) Cyngor Cymuned Llanrug. Clybiau Peldroed. Gofynion ychwanegol gan Gymdeithas Peldroed Cymru ar gyfer meysydd peldroed. Trafodwyd a gofynnwyd I Mrs Ann Williams gysylltu â Mr Wil Williams, ysgrifennydd y Clwb Peldroed i gael gwybod oedd Clwb Peldroed Gwalchmai wedi derbyn yr un ohebiaeth.	**(iv) Llanrug Community Council.** Football Clubs. Football Association for Wales - Additional requirements for football fields. Discussed and Mrs Ann Williams was requested to contact Mr Wil Williams, Club Secretary, to find out if Gwalchmai Football Club had received the same correspondence.
(v) Npower. Symud cyfrif trydan i system filio newydd. Derbyn er gwybodaeth.	**(v) Npower.** Moving electricity account to new billing system. For information.
(vi) Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Cylchlythyr. Derbyn er gwybodaeth.	**(vi) Older People's Commissioner for Wales.** Newsletter. For information
(vii) Cyngor Sir Ynys Môn.	**(vii) Isle of Anglesey County Council.**
(a) Cais Cynllunio Rhif ADV/2019/12. Cais am arwydd ar Safle Sioe Môn i ddangos lleoliad Canolfan Ffermwyr Ifanc Môn. Trafodwyd – dim sylwadau.	**(a) Planning Application ADV/2019/12.** Application for sign to be erected on Anglesey Showground to show location of the Anglesey Young Farmers Centre. Discussed – no comments.
(b) Gwasanaeth Sul y Cadeirydd.	**(b) Chair's Sunday Service.** Invitation

Gwahoddiad i'r gwasanaeth sydd i'w gynnal yng Nghapel Carmel Moelfre dydd Sul 13/10/2019 am 2pm. Neb yn rhydd i dderbyn y gwahoddiad. Y Clerc i roi gwybod i'r Cyngor Sir fel y gofynnwyd.	to the service to be held at Carmel Chapel, Moelfre on Sunday 13/10/2019 at 2pm. No one free to accept the invitation. The Clerk to inform the County Council as requested.
6. Materion ariannol	**6. Financial matters**
(a) Anfonebau fel a ganlyn**:** **Smith of Derby £2872.80** am drin cloch y cloc; **Anglesey Computer Solutions £294.00** ffi am wasanaeth rheoli gwefan y Cyngor 1/10/2019 tan 1/10/2021, ynghyd a ffi gwesteiwr gwefan; **£500.00 Cyflog y Clerc** am ail chwarter y flwyddyn ariannol hon; **£125.00 HMRC - PAYE** ar gyflog y Clerc. Y Clerc i dalu'r afonebau.	**(a) Invoices** received as follows: **Smith of Derby £2872.80** for repairing the clock's bell; **Anglesey Computer Solutions £294.00** website management fees 1/10/2019 until 1/10/2021 together with website hosting fees; **£500.00 Clerk's salary** for the second quarter of this financial year; **£125.00 HMRC – PAYE** on Clerk's salary. The Clerk to pay the invoices.
(b) Derbyn - Ail daliad y praecept **£2833.33** Cyngor Sir Ynys Môn	**(b) Received - £2833.33** Second payment of praecpt from Anglesey County Council.
(c) Adolygiad ariannol chwarterol. Derbyniwyd adroddiadau'r Clerc sydd yn cadarnhau bod digon o incwm a chronfeydd i gynnal costau hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol.	**(c) Quarterly financial review.** The Clerk's reports, which confirm that there is sufficient income and funds to maintain costs till the end of the financial year were accepted.
7. Unrhyw fater arall yn ôl doethineb y Cadeirydd.	**7. Any other matter** at the Chairman's discretion.
(a) Clwb Peldroed Gwalchmai. Ym mhwyllgor diwethaf y Clwb Peldroed gofynnwyd i Mrs Ann Williams ddatgan pryder y Clwb am brydles y Cae Peldroed. Penderfynwyd gwahodd Mr Trefor Jones (Cadeirydd y Clwb), Mr Wil Williams (Ysgrifennydd y Clwb) a Mr Gwyn Thomas (Trysorydd y Clwb) i gyfarfod nesaf y Cyngor i drafod y mater.	**(b) Gwalchmai Football Club.** At the last meeting of the Football Club, Mrs Ann Williams was requested to inform the Council of the Club's worry regarding the Lease on the football field. It was decided to invite Mr Trefor Jones (Club Chairman), Mr Wil Williams (Club Secretary) and Mr Gwyn Thomas (Club Secretary) to the Council's next meeting to discuss the matter.
(b) Tyllau ar y ffordd rhwng Groeslon a'r Waen. Gofynnwyd i'r Cynghorydd Bob Parry ddod a'r mater hwn i sylw'r Cyngor Sir.	**(b) Holes in the road** between Groeslon and Waen. Councillor Bob Parry was requested to bring this matter to the attention of the County Council.
8. Pennu dyddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf. Cynhelir y cyfarfod nesaf nos Fawrth, 8 Hydref 2019 am 7pm yng Nghanolfan yr Henoed.	**8. Fix a date for the next meeting.** The next meeting will be held on Tuesday, 8 October 2019 at 7pm at the Pensioners' Hall.
Daeth y cyfarfod i ben am 8.15pm.	**The meeting concluded at 8.15pm.**